YSGOL BRYNREFAIL

DARLLEDIAD GWYDDONOL

Yn ystod mis Mehefin fe gawsom dau westai o nod yn ymweld ag Ysgol Brynrefail er mwyn recordio rhaglen radio bydd yn cael ei ddarlledu ym mis Medi. Ar y dde y mae Dr Rheinallt Parri, yn wreiddiol o Ddeiniolen, ac yn gyn disgybl yn Ysgol Brynrefail.
Y mae Dr Parri yn gweithio yn Adran Fferylleg, Prifysgol Aston, Birmingham. Yno y mae'n gwneud gwaith ymchwil ar yr ymennydd a chemegau sy'n cael eu treialu ar gyfer eu defnydd i drin y clefyd Alzheimer.

I'r chwith y gwelir Dr Dewi Lewis, yntau hefyd yn gyn disgybl ym Mrynrefail, sydd yn awr yn Gemegydd Cyfrifiadurol yng Ngholeg Prifysgol Llundain. Gwaith Dr Lewis yw ymchwilio i effaith CO_2 ar yr amgylchfyd trwy ddefnyddio CO_2 solet i arbrofi a yw yn ddrwg neu'n dda A'r un gyda'r wen fwyaf ar y diwrnod? Wel Mr Dilwyn Roberts bu'n addysgu'r ddau.